**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd yng Nghanolfan Deunant nos Lun, Mehefin 14eg 2021**

**Yn y gadair:** Cyng Nesta Roberts
**Presennol:** Y Cynghorwyr Wenda Williams, Geraint Jones, Emlyn Jones, Mari Evans, Gwenllian Hughes Jones
**1)Ymddiheuriadau a datgan diddordeb :** Y Cynghorwyr RG Williams, RJ Williams, Iain Roberts a Dafydd Williams
**2)Cyhoeddiadau y cadeirydd:** Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng Gwenllian Hughes Jones a phwyllgor y cae chwarae am eu gwaith caled, braf oedd gweld gwirfoddolwyr yn rhoi eu hamser yn y cae chwarae
**3)Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Fai 2021:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.
**4) Materion yn codi o'r cofnodion**
**i)Cae Chwarae:** Derbyniwyd adroddiad ar brosiect y cae chwarae gan y Cyng Gwenllian Hughes Jones.
Mae £1200 wedi ei gasglu trwy ocsiwn addewidion lwyddiannus.
Bydd gwirfoddolwyr yn cyfarfod y noson wedi y cyfarfod i wneud mwy o waith yn y cae.
Penderfynwyd archebu y meinciau ar gyfer y cae gan Gwmni Huws Gray, cytunwyd i dalu y gost o £490.01 amdanynt.
Cytunwyd i archebu graean mân (llwch) er mwyn creu llwybr dros dro fydd yn addas ar gyfer yr anabl, penderfynodd y Cyngor mewn egwyddor i dalu hanner y gôst. Ymhen amser bydd ceisiadau am grant yn cael eu gwneud i greu llwybr mwy parhaol.
Nid yw'r TCC wedi eu archebu eto, ond pwysleiswyd fod brys i'w gosod er mwyn galluogi y cae chwarae i gael ei agor cyn gwyliau yr haf. Penderfynwyd gofyn i Arfon Roberts am arweiniad pellach.
**ii)Ymateb Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
a) Mae'r tyllau ger Bodwyddog a Nant y Gadwen, Y Rhiw a ger Tir Topyn, Rhoshirwaun wedi eu llenwi.
b)Mae'r gwaith o drwsio y ffordd ar bont Bodernabwy wedi ei gynnwys ar restr waith ail wynebu dymunol Ardal Dwyfor. Mae arwyddion ffordd anwastad wedi eu gosod yn y cyffiniau
c)Graeanu y ffordd rhwng Mynytho a'r Rhiw: Eglurodd y swyddog priffyrdd fod y ffordd yma wedi ei chynnwys ar y rhestr ail flaenoriaeth graeanu. Er cadw at y canllawiau ac arweiniad y comisiwn archwilio a'r cod ymarfer da mae'n ofynnol cadw hydau cylchdeithiau cyn driniaeth i amodau penodol. E.e. awgrymir na ddylid targedu i baratoi cyn driniaeth ar sail blaenoriaeth i fwy na 30% o'r rhwydwaith. Mae angen cadw cylchdeithiau hefyd yn gyfesur ac addas i'r gyllideb neilltuir. Yn ôl patrwm blynyddol fe ddiwedderir y cynllun gweithredu gofalgarwch gaeaf yn flynyddol ac fe ystyrir eich cais yn yr adolygiad nesaf. Ni all roi addewid y bydd y cais yn cael ei gymeradwyo ar sail yr angen cydymffurfio a'r canllawiau nodwyd
ch)Mae'r twll ger Cae Graig, Rhoshirwaun wedi derbyn sylw.
d)Arwydd Porthor ger Eglwys Bodferin: Mae trefniant mewn llaw i adnewyddu'r arwydd.
dd)Mae cyflwr y coed ger Sunny View, Rhydlios o fewn goddefiad risg am y tro. Mae'n ofynnol ar y Cyngor i fod yn gyfrifol i ymarfer gorfodaeth ar sail tystiolaeth gadarn. Fe gadwir golwg ar y sefyllfa.
e)Gwter ger Bodrydd: Mae'r pigyn wedi ei dynnu ymaith ac mae "côn" wedi ei adael yno am y tro.
**iii)Canolfan Crud y Werin:** Nid oes ymateb wedi ei dderbyn gan y Pennaeth hyd yma.
**iv)Ffynhonnau dwr:** Trafodwyd cynllun i osod ffynhonnau dwr ym mhentref Aberdaron a'r posibilrwydd o osod rhai yn Y Rhiw a Rhoshirwaun yn ogystal. Penderfynodd y Cyngor mewn egwyddor i ariannu un yn Aberdaron a gadael i'r Grwp Twristiaeth wybod am y

bwriad.
Hefyd penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd symud y ffynnon sydd yn y toiledau i safle gwell ar y Queens.
**v)Archwiliad y fynwent:** Nid oedd y Cyng RJ Williams yn bresennol i roi yr adroddiad ond mae wedi gwneud yr archwiliad a chadarnhawyd fis diwethaf fod popeth mewn trefn yn y fynwent.
**vi)Eglwys Newydd:** Adroddodd y Cadeirydd ei bod wedi llwyddo i gysylltu gyda banc y Barclays a'i bod yn debygol ei bod wedi llwyddo i newid enwau y rhai sydd yn arwyddo sieciau cyfri Cyfeillion yr Eglwys Newydd.
Mae y Cyng Geraint Jones a Mari Evans am drefnu i symud y pridd o'r fynwent gan fod y tywydd sych yn ei gwneud yn ffafriol i fynd a thractor a pheiriant i'r fynwent i'w symud.
**5) <u>Gohebiaethau</u>**
i)Pecyn gwybodaeth ymgynghoriad rheoli cwn: Er gwybodaeth.
**6)Torri Llwybrau:** Cytunwyd i roi cyfarwyddyd i Huw Williams dorri y llwybrau
**7) <u>Cynllunio</u>**
Dim ceisiadau wedi eu derbyn
**8)Ariannol**
**i)Adroddiad archwiliad mewnol i gyfrifon y Cyngor:** Derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol a chodwyd dau bwynt:

- Nid oes cofnod ar y wefan nad yw y Cynghorwyr yn derbyn lwfansau.
- Nid yw y TAW wedi ei nodi yn y llyfr arian

Bydd y clerc yn ymdrîn â'r materion yma.
Roedd yr archwiliwr yn fodlon a phob elfen arall o'r cyfrifon a byddant yn cael eu cyflwyno i'r archwiliwr allannol erbyn 30ain o Fehefin.
**ii)Adroddiad ariannol:** Adroddwyd fod £42,629.44 yng nghyfrif y Cyngor ar y 14eg o Fehefin a bod gwariant hyd yma yn y flwyddyn ariannol o fewn y gyllideb a benwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol.
**Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:
Iwan Hughes: £177.21
HMRC (Paye): £44.40
**Derbyniadau**
Dim
**9) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**
i)Mae angen atgoffa Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd fod clo ar y giat ar lwybr Top Rhos
ii)Mae angen gwell arwyddion ar y llwybr o Fryn Mawr i Fryn Swynog, Anelog
iii)Mae angen barbio y llwybr o Tan y Muriau at Gwern Saer, Y Rhiw. Nid yw y llwybr yma ar restr y Cyngor Cymuned ond penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd os y buasai y Cyngor yn fodlon ei dorri.
iv)Mae un twll angen ei lenwi ger Maes Gwyn, Rhoshirwaun.
v)Penderfynwyd gofyn am arwydd yn cyfeirio at Aberdaron a Phwllheli ger Porthor.
vi)Mae gwellt yn tyfu ar y ffordd trwy Bodwrdda ac o ganlyniad methwyd a mynd a pherson mewn cadair olwyn ar hyd y ffordd yn ddiweddar.
vii)Mae pryder yn parhau am y cwn sydd yn rhydd yn ardal Y Rhiw, penderfynwyd hsybysu yr heddlu.
viii)Derbyniwyd cwynion am ymddygiad anghymdeithasol yn Aberdaron. Penderfynwyd gofyn i'r heddlu am fwy o bresenoldeb yn y pentref.
ix)Mae yr arwyddion 'A frame' yn rhwystr ar ochr y ffordd ger y Gegin Fawr yn creu rhwystr. Tybir fod caniatad wedi ei roi ar eu cyfer ond penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd.
x)Mae angen ail baentio arwyddion 'Araf' ar y ffyrdd yn yr ardal.
xi)Tynnwyd sylw nad ydi yr arwyddion 'Araf' byth wedi eu rhoi ar y ffordd ger Eglwys Bodferin a Geufron, Aberdaron er fod y Cyngor wedi gofyn am rai ers misoedd.

**Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal nos Lun, Gorffennaf y 12fed yn Neuadd Rhoshirwaun.**